# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Medi 1af 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Eifion Davies, Iolo Evans, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Gwynedd Jones a Maldwyn Jones

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 30ain 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.

b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026.
**Cafwyd diweddariad gan y clerc am y prosiect.**

c) Problemau parcio pentref Llandderfel.
**Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben ac roedd amryw o'r trigolion lleol wedi cyflwyno sylwadau. Gofynwyd i'r clerc gysylltu a Chyngor Gwynedd i drafod y cynllun ymhellach.**

iv) Gohebiaeth
a) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Car Cymunedol – taith o gwmpas pentrefi, 8/9/26.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfyngiad traffig dros dro – Llandderfel, 7/09/26 & 16/09/26.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Brifydd ar gyfer mis Awst.
iii) Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru.

c) Un Llais Cymru.
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 29: Rôl y Cadeirydd yn ystod Cyfarfodydd.
ii) Grant Llywodraeth Cymru.

ch) Amrywiol.
i) Triathlon y Bala 2026 – 6/09/26.
ii) SCCH Iwan Roberts – gair o ddiolch.

v) Ceisiadau Cynllunio
i) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen – diweddariad.
ii) C26/0419/04/LL – Codi sied bren er storio coed tan wrth gefn y safle ac addasu mynedfa gerbydol. Capel Methodistiaid, Glanrafon.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o wrthwynebiad lleoli i'r cynllun ond nodwyd fod cerrig beddi yn agos iawn i leoliad y sied ac byddai angen cymryd gofal i sicrhau na fyddant yn cael niwed.**

vi) Materion Ariannol
a) Derbyniadau**.**
Derbyniwyd ail randal y Praesept.

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu** Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd), Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol) a Tomos Hughes (offer difibs).

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Radio Ysbyty Gwynedd a Cerebral Palsy Cymru - c**ytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.**